

**COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU A GYNHALIWD
DROS ZOOM DDYDD GWENER, 26 MAI 2021**

YN BRESENNOL

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:

Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Sir Ceredigion ac Aelod Cabinet dros Berfformiad Polisi, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(EAG)** (Cadeirydd)

Cynghorydd Dafydd Edwards: Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai **(DE)**

Cynghorydd Catrin Miles: Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**

Cynghorydd Rhodri Evans: Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio **(RE)**

Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Gyllid a Gwasanaethau Caffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd **(GL)**

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:

Cynghorydd Rosemarie Harris Arweinydd Cyngor Sir Powys **(RH)**

Cynghorydd Aled Davies, Deiliad y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth **(AD)**

Cynghorydd Phyl Davies, Deiliad y Portffolio Addysg ac Eiddo **(PD)**

Cynghorydd Heulwen Hulme, Deiliad Portffolio yr Amgylchedd **(HH)**

Cynghorydd Iain McIntosh, Deiliad Portffolio y Economi, Cynllunio a Tai **(IM)**

Grŵp Strategaeth Economaidd:

Fiona Stewart, Cadeirydd Grŵp y Strategaeth Economaidd **(FS)**

Swyddogion:

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**

Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**

Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Strategol Bargaen Twf Canolbarth Cymru **(CJE)**

Clive Pinney, Cyfreithiwr y Cyngor, Cyngor Sir Powys **(CP)**

Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd **(LE)**

Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**

Paul Griffiths, Cynghorydd **(PG)**

Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**

Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**

Yn bresennol: Elgan Hearn, Gohebydd Democratiaeth Leol Powys

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES
--

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Steve Hughson, Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, a Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion.

2.	DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST
-----------	--

Cyhoeddodd Fiona Stewart fuddiant personal ynglyn â chynnig posib gan Green Man Festival.

3.	COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF/ MINUTES OF THE LAST MEETING 03/02/2021
-----------	--

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod Bwrdd diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 yn gofnod cywir. Dywedodd CP y byddai'r IAA diwygiedig yn cael ei ddwyn i'r cyfarfod nesaf ar 11 Mehefin.

4.	BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU: DATBLYGU PORTFFOLIO/ MID WALES GROWTH DEAL: PORTFOLIO DEVELOPMENT
-----------	---

- Adroddiad: cynllunio ac adnoddau ar gyfer sicrhau cytundeb borgen lawn

Rhoddodd CJE y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y portffolio. Roedd cyfarfodydd bob pythefnos gyda gweision sifil y ddwy lywodraeth wedi helpu i egluro'r hyn a ddisgwylir, ond roedd yn amlwg y byddai adborth ffurfiol ar y ddogfennaeth a'r trefniadau a sefydlwyd ddim ond ar ôl cyflwyno'r cynnig yn ffurfiol i'r Llywodraethau.

Esboniodd fod gwaith ar y gweill i ddatblygu'r Portffolio yn y modd a ddisgwylir gan y Llywodraeth. Roedd swyddogion yn cynnal sgysrsiau gyda chynigwyr prosiectau ym mhob achos ac yn annog datblygu eu cynigion i lefel o fanylder a allai helpu'r Bwrdd ac ESG i ddechrau gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn erbyn y Portffolio sy'n dod i'r amlwg a phenderfynu ar y gymysgedd o brosiectau y byddai'n cael eu cyflwyno ar eu cyfer. ystyriaeth gychwynnol gan Lywodraethau yn yr Hydref.

Er bod y gwaith hwn yn parhau, roedd yn amlwg bod cyfyngiadau capasiti tymor byr sylweddol yn bodoli o fewn timau'r Awdurdod Lleol sy'n gweithio ar ddatblygu'r Fargen Twf er mwyn cyflawni Cytundeb y Fargen Lawn (FDA) erbyn diwedd 2021 wrth iddynt flaenoriaethu eu hymateb barhaus i Covid a chefnogaeth busnes, cyfleoedd cyllido newydd a disgwyliadau cynyddol yn lleol.

Cynigiwyd felly i gomisiynu capasiti allanol ar frys i helpu reoli'r gwaith sy'n weddill i FDA, datblygu'r Achos Busnes Portffolio ymhellach ac Achosion Busnes Rhaglen cysylltiedig. Byddai'n hanfodol dod â thîm profiadol i mewn, a oedd â phrofiad uniongyrchol berthnasol o gyflawni gwaith tebyg mewn Bargeinion eraill. Amcangyfrifwyd bod gwerth y gwaith oddeutu £80,000 a chan nad oedd y Bwrdd wedi cadarnhau ei gyllideb ar gyfer 2021/22 eto, cynigiwyd y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn o dan awdurdod dirprwyedig y Prif Weithredwyr i awdurdodi cyfraniadau uniongyrchol i ariannu'r gwaith hwn.

Cytunodd y Bwrdd â'r cynnig hwn, i sicrhau bod y Cytundeb Borgen Lawn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd 2021.

PENDERFYNIAD: comisiynu capasiti allanol ar frys i helpu i reoli rhaglenni'r gwaith sy'n weddill i FDA, datblygu ymhellach yr Achos Busnes Portffolio ac Achosion Busnes Rhaglen cysylltiedig a bod y Prif Weithredwyr wedi dirprwyo awdurdod i awdurdodi cyfraniadau uniongyrchol i ariannu'r gwaith hwn.

5.	PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL: DIWEDDARIAD CYNNYDD/ REGIONAL SKILLS PARTNERSHIP: PROGRESS UPDATE
-----------	--

Dyweddodd DS fod cyfarfod cyntaf y Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'i gynnal ar 12 Mai. Cytunodd i gylchredeg manylion y Bwrdd RSP i aelodau. Penodwyd Aggie Caesar-Homden yn Rheolwr a phenodwyd Adrian Watson yn Gadeirydd dros dro am y 6 mis nesaf yn dilyn cyfweiliad gan EAP a RH.

Adroddodd FS nad oedd cydweithwyr ar yr ESG yn teimlo nad oedd y ffyrdd arferol o gysylltu busnesau â darparwyr hyfforddiant yn gweithio ac yr hoffent weld cronfa ddata dysgu a sgiliau yn cael ei datblygu ar gyfer Canolbarth Cymru. Roedd EAP hefyd eisiau gweld cronfa ddata yn cael ei datblygu yn nodi'r hyn yr oedd cyflogwyr ei eisiau gan AU, AB a darparwyr hyfforddiant fel y gellir mynd i'r afael â bylchau sgiliau.

6.	UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS
-----------	--

Dim.

7.	DYDDIADAU CYFARFOD NESAF / DATES OF FUTURE MEETINGS
-----------	--

11 Mehefin 2021 – Rhithiol
21 Medi 2021 – Rhithiol
10 Rhagfyr 2021 - Rhithiol

**Cynghorydd Ellen ap Gwynn
Cadeirydd**